

Gwybodaeth am eich apwyntiad addasu cymorth clyw

Gwasanaeth Awdioleg Gwent

Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r gofal y byddwch chi'n ei gael pan fyddwch chi'n mynychu'r Adran Awdioleg ar gyfer uwchraddio eich cymorth clyw.

Byddwn yn tybio eich bod yn rhoi eich caniatâd i gael un o'r triniaethau hyn pan fyddwch chi'n mynychu'r apwyntiad. Cofiwch y gallwch ddweud yn ystod yr apwyntiad os na fyddwch chi'n dymuno parhau gyda'r profion.

Rydyn ni'n eich annog yn gryf i ddod â ffrind neu aelod o'r teulu i bob apwyntiad. Cofiwch ddweud wrthym dros y ffôn neu pan fyddwch chi'n cyrraedd y clinig os hoffech chi gael eich gweld ar eich pen eich hun.

Os byddwch chi angen unrhyw gymorth i gyfathrebu, cofiwch ffonio'r adran gyda manylion yr iaith yr hoffech gyfathrebu ynddi a byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu hyn ar eich cyfer.

Bydd eich apwyntiad gydag Awdiolegydd cwbl gymwysedig sydd â phrofiad mewn gosod cymhorthion clyw i oedolion.

Yn ystod eich apwyntiad

Bydd yr Awdiolegydd yn gwirio maint y darn clust a ddewiswyd ar eich cyfer. Mae dau fath sy'n cael eu defnyddio:

Mowld clust o'r mesur cywir sydd wedi'i wneud ar eich cyfer o'r argraff a gymerwyd yn ystod apwyntiad eich asesiad. Byddwn yn gwirio'r mowld clust i sicrhau ei fod yn gyfforddus i chi. Bydd y tiwb sy'n mynd trwyddo'n cael ei dorri i'r hyd cywir. Tiwb "sy'n ffitio clust agored" gyda chromen fydd yn cael ei mesur i ffitio'n gywir.

Byddwn ni wedyn yn cysylltu'r cymorth clyw i'r darn clust gan ddefnyddio'r tiwb a gosod y cymorth clyw y tu ôl i'ch clust.

Profi'r cymorth clyw

Byddwn yn cynnal profion i sicrhau bod y cymorth clyw wedi'i osod yn gywir ar gyfer eich diffyg clyw a siâp a maint eich clust chi. Bydd y profion hyn yn gofyn am wrando ar synau sy'n dod drwy seinydd ar y ddesg. Byddwn yn dechrau drwy roi tiwb bychan a darn clust yn eich clust a'r cymorth clyw wedi'i gysylltu iddyn nhw. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r synau'n eithaf

uchel ond ni ddylent achosi unrhyw anghysur. Bydd yr Awdiolegydd wedyn yn defnyddio'r profion hyn i wneud addasiadau bach i'r cymorth clyw a sicrhau ei fod wedi'i osod yn dda ar eich cyfer.

Gosod rheolyddion y cymorth clyw

Bydd yr anghenion y cytunwyd ar ddechrau'r apwyntiad yn helpu'r Awdiolegydd i benderfynu pa raglenni y byddwch ei hangen ar y cymorth clyw er mwyn cael y budd mwyaf allan ohono.

Cyngor a cymorth pellach

Mae'n bwysig cofio bod pob person yn unigolyn gydag anghenion gwahanol. Bydd yr Awdiolegydd yn trafod sut byddwch chi'n addasu i'r cymorth clyw.

Mae'n normal i'r cymorth clyw swnio'n ddieithr ar y dechrau, gall gymryd ychydig fisoedd i chi ddod yn gyfarwydd â sŵn y cymorth clyw. Byddwn yn trafod hyn gyda chi yn fwy manwl ac ar sail eich cynllun rheoli personol, byddwn ni'n egluro sut bydd y cymorth clyw o fudd i chi.

Yn ystod yr apwyntiad, os bydd unrhyw beth y byddwch chi'n ansicr ynglyn ag ef, cofiwch ofyn ar unwaith.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**